

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Digwyddiadau allweddol yn y broses o ddatblygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr Ail Gynulliad: 2003 - 2007

Mae'r papur hwn yn darparu amlinelliad o ddyddiadau allweddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod yr Ail Gynulliad.

Mae'n canolbwyntio ar ddigwyddiadau gweinyddol a threfniadaeth ond mae hefyd yn cyfeirio at rhai datblygiadau gwleidyddol a pholisi nodweddiadol.

Gwasanaeth  
Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
**[www.cynulliadcymru.org/research](http://www.cynulliadcymru.org/research)**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA**

E-bost: **[Research.Service@wales.gov.uk](mailto:Research.Service@wales.gov.uk)**  
Twitter: **[@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

## **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Digwyddiadau allweddol yn y broses  
o ddatblygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr Ail Gynulliad: 2003 - 2007



Gwasanaeth  
Ymchwil

# Cynnwys

<b>2003</b> .....	<b>1</b>
Mai .....	3
Mehfin .....	5
Gorffennaf .....	5
Awst .....	7
Medi .....	7
Hydref .....	7
Tachwedd .....	7
Rhagfyr .....	8
<b>2004</b> .....	<b>9</b>
Ionawr .....	11
Chwefror .....	11
Mawrth .....	11
Ebrill .....	11
Mai .....	12
Mehfin .....	12
Gorffennaf .....	12
Medi .....	12
Hydref .....	13
Tachwedd .....	13
Rhagfyr .....	13

<b>2005</b> .....	<b>15</b>
Ionawr .....	17
Chwefror .....	17
Mawrth.....	17
Ebrill .....	18
Mai .....	18
Mehefin .....	19
Gorffennaf.....	20
Hydref .....	20
Tachwedd.....	20
Rhagfyr .....	21
<b>2006</b> .....	<b>23</b>
Ionawr .....	25
Chwefror .....	26
Mawrth.....	26
Ebrill .....	27
Mai .....	27
Mehefin .....	28
Gorffennaf.....	29
Tachwedd.....	29
<b>2007</b> .....	<b>31</b>
Ionawr .....	33
Chwefror .....	33
Mai .....	33



---

**Digwyddiadau allweddol  
yn y broses o ddatblygu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**2003**



## Mai

### 1 Mai

Etholiadau'r Cynulliad.

**(Canlyniadau'r etholiad)**

### 7 Mai

Cyfarfod Llawn Cyntaf yr Ail Gynulliad.

- Ailbenodi'r Arglwydd Elis-Thomas yn Llywydd;
- Penodi Dr John Marek AC yn Ddirprwy Lywydd;
- Ailethol Rhodri Morgan AC yn Brif Weinidog.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 7 Mai 2003)**

### 8 Mai

Ieuan Wyn Jones AC yn ymddiswyddo fel Llywydd Plaid Cymru.

### 9 Mai

Prif Weinidog Cymru'n cyhoeddi ei Gabinet newydd ar gyfer ail dymor Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Y Gweinidog dros Gyllid, gyda chyfrifoldeb am lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus - Sue Essex AC (Llafur);
- Y Trefnydd - Karen Sinclair AC (Llafur);
- Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio - Edwina Hart AC (Llafur);
- Y Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Jane Hutt AC (Llafur);
- Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, gyda chyfrifoldeb am drafnidiaeth - Andrew Davies AC (Llafur);
- Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes - Jane Davidson AC (Llafur);
- Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad - Carwyn Jones AC (Llafur);
- Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg - Alun Pugh AC (Llafur).

## Mai

### 13 Mai

Cynhelir y Cyfarfod Llawn cyntaf ar brynhawn Mawrth o dan y drefn newydd, sef y bydd cyfarfodydd llawn yn cael eu cynnal ar brynhawn Mawrth a phrynhawn Mercher.

Y Prif Weinidog yn penodi'r Dirprwy Weinidogion:

- Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth – Brian Gibbons AC (Llafur);
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol – John Griffiths AC (Llafur);
- Cyfiawnder Cymdeithasol – Huw Lewis AC (Llafur).

Etholir aelodau Pwyllgor y Tŷ a'r Pwyllgor Busnes.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 13 Mai 2003)**

### 20 Mai

Etholir aelodau Panel y Cadeiryddion. Bydd cadeiryddion y pwyllgorau yn cael eu dewis o blith aelodau'r panel, sef:

- Rosemary Butler AC (Llafur);
- Janice Gregory AC (Llafur);
- Christine Gwyther AC (Llafur);
- Ann Jones AC (Llafur);
- Alun Ffred Jones AC (Plaid Cymru);
- David Melding AC (Ceidwadwyr);

Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol).

## Mehffin

### 3 Mehefin

Etholir cadeiryddion ac aelodau'r pwyllgorau pwnc yn y Cyfarfod Llawn:

- Alun Ffred Jones AC (Plaid Cymru) – Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad;
- Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol) – Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes;
- Rosemary Butler AC (Llafur) – Y Pwyllgor Diwylliant, Yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon;
- Ann Jones AC (Llafur) – Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Janice Gregory AC (Llafur) - Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio;
- David Melding AC (Ceidwadwyr) - Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Christine Gwyther AC (Llafur) - Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth;
- Janet Davies AC (Plaid Cymru) - Y Pwyllgor Archwilio;
- Gwenda Thomas AC (Llafur) - Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal;
- Glyn Davies AC (Ceidwadwyr) - Y Pwyllgor Deddfau;
- Kirsty Williams AC (Democratiaid Rhyddfrydol) - Y Pwyllgor Safonau;
- Sandy Mewies AC (Llafur) - Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 3 Mehefin 2003)**

### 5 Mehefin

Agorir yr ail Gynulliad yn swyddogol gan Ei Mawrhydi'r Frenhines, ynghyd â'i Fawrhydi Brenhinol Dug Caeredin a'i Fawrhydi Brenhinol Tywysog Cymru.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 5 Mehefin 2003)**

### 12 Mehefin

Croesewir y 100,000fed ymwelydd i'r Cynulliad yn y Pierhead ers agor y ganolfan i'r cyhoedd ym Mai 2001.

## Gorffennaf

### 1 Gorffennaf

Derbynnir cynnig NDM1518 yn y Cyfarfod Llawn bod *Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno i wneud contract cyfandaliad ar gyfer adeilad Siambr newydd y Cynulliad gyda Taylor Woodrow Construction Cyf ar gost o £40,997,000.00 (heb gynnwys TAW).*

Y Cynulliad Cenedlaethol yn sefydlu Pwyllgor Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) o dan Reol Sefydlog Rhif 8.1 a fydd yn cynghori'r Cynulliad ar delerau *Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru)*. **(Cofnod y Trafodion ar gyfer 1 Gorffennaf 2003)**

## Gorffennaf

### 2 Gorffennaf

Y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 8.1, yn ethol yr Aelodau Cynulliad canlynol yn aelodau Pwyllgor Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru):

- Leighton Andrews AC (Llafur);
- Ann Jones AC (Llafur);
- Alun Cairns AC (Ceidwadwyr);
- Mick Bates AC (Democratiaid Rhyddfrydol);
- Janet Davies AC (Plaid Cymru) (Cadeirydd).

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 2 Gorffennaf 2003)**

### 8 Gorffennaf

Cyfarfod cyntaf Pwyllgor Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru).

### 9 Gorffennaf

Y Gwir Anrh. Helen Clark AS, Prif Weinidog Seland Newydd, yn annerch y Cynulliad.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 9 Gorffennaf 2003)**

### 15 Gorffennaf

Y Pwyllgor ar Drefniadau Seddi yn y Siambr yn cael ei sefydlu o dan Reol Sefydlog Rhif 8.1.

Etholir aelodau'r pwyllgor ar 16 Gorffennaf:

- Karen Sinclair AC (Llafur);
- Lynne Neagle AC (Llafur);
- Leighton Andrews AC (Llafur);
- Carl Sargeant AC (Llafur);
- Janet Davies AC (Plaid Cymru);
- Jonathan Morgan AC (Ceidwadwyr);
- Kirsty Williams AC (Democratiaid Rhyddfrydol);
- Yr Arglwydd Elis-Thomas (Plaid Cymru) (Cadeirydd).

Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 35, sy'n darparu ar gyfer aelodaeth pwyllgorau penderfyniadau cynllunio fel eu bod yn adlewyrchu'r cydbwysedd newydd rhwng y pleidiau yn y Cynulliad.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 15 Gorffennaf 2003)**

## Awst

### Awst

Y gwaith adeiladu'n dechrau ar adeilad newydd y Cynulliad.

## Medi

### 10 Medi

Cyhoeddir bod un person, sef Adam Peat, wedi'i benodi i dair swydd: Comisiynydd Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru, Comisiynydd y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru ac Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru.

### 15 Medi

Etholir Ieuan Wyn Jones AC yn arweinydd grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad.

## Hydref

### 2 Hydref

Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar Drefniadau Seddi yn y Siambr.

### 21 Hydref

Cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ar Drefniadau Seddi yn y Siambr.

## Tachwedd

### Tachwedd

Cyhoeddi *The National Assembly for Wales elections 2003: the official report and results*.

### 4 Tachwedd

Gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar Drefniadau Seddi yn y Siambr.

### 19 Tachwedd

Gweinidog-Lywydd Teufel o ranbarth Baden-Württemberg yr Almaen yn annerch y Cynulliad.

Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 14 fel y gellir dirprwyo ar y Pwyllgor Cyfle Cyfartal; i Reol Sefydlog Rhif 15 fel y gellir dirprwyo ar y pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol; ac i Reol Sefydlog Rhif 19, fel bod modd cyhoeddi mwy nag un adroddiad ar gyllid llywodraeth leol mewn blwyddyn, ac er mwyn gwneud y trefniadau ar gyfer cyflwyno dogfennau yn gliriach.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 19 Tachwedd 2003)**

### 28 Tachwedd

Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn cyfarfod yn Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan.

## Rhagfyr

### 3 Rhagfyr

Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gwneud datganiad ar Araith y Frenhines.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 3 Rhagfyr 2003)**

### 5 Rhagfyr

Prif Weinidog Cymru a'r Llywydd yn ymweld â chwarel y Penrhyn ym Methesda er mwyn torri'r llechen gyntaf a fydd yn cael ei defnyddio yn adeilad newydd y Cynulliad.

---

**Digwyddiadau allweddol  
yn y broses o ddatblygu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**2004**



## Ionawr

### 13 Ionawr

Y Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio o blaid sefydlu Pwyllgor Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o dan Reol Sefydlog Rhif 8.1. Bydd y pwyllgor yn ystyried agweddau ar Fesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, gan gynnwys y llythyr a anfonodd y Gweinidog Cyllid ar 1 Rhagfyr at Gadeirydd Pwyllgor Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Etholir yr Aelodau Cynulliad canlynol yn aelodau o Bwyllgor Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Leighton Andrews AC (Llafur);
- Janice Gregory AC (Llafur);
- Alun Cairns AC (Ceidwadwyr);
- Jenny Randerson AC (Democrat Rhyddfrydol);
- Janet Davies AC (Plaid Cymru) (Cadair).

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 13 Ionawr 2004)**

### 22 Ionawr

Cyfarfod cyntaf Pwyllgor Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

## Chwefror

### 2 Chwefror

Canolfan ymwelwyr newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Colwyn yn agor i'r cyhoedd.

## Mawrth

### 24 Mawrth

Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reolau Sefydlog er mwyn iddynt adlewyrchu'r ffaith mai enw newydd Swyddfa'r Llywydd yw 'Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad'.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 24 Mawrth 2004)**

### 31 Mawrth

Cyhoeddi **adroddiad** y Comisiwn Richard ar bwerau a threfniadau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol.

Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reolau Sefydlog er mwyn atgyfnerthu'r holl reolau a ddiwygiwyd yn ystod y Cynulliad Cyntaf, gan gywiro unrhyw anghysonderau a hynodweddau ynddynt.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 31 Mawrth 2004)**

## Ebrill

### 26 Ebrill

Y newidiadau i Reolau Sefydlog a gymeradwywyd ar 24 Mawrth 2004 yn dod i rym, gan olygu mai enw newydd Swyddfa'r Llywydd yw 'Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad'.

## Mai

### 13 Mai

Ei Hardderchowgrwydd yr Arlywydd Vaira Vike-Freiberga o Latfia yn ymweld â'r Cynulliad.

### 27 Mai

Cyhoeddi'r *Mesur Trafnidiaeth (Cymru)* drafft.

## Mehafin

### 8 Mehefin

Y Cynulliad yn pleidleisio i sefydlu pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 8.1 a fydd yn cynghori'r Cynulliad ar wahardd ysmegu mewn manau cyhoeddus. Etholir yr Aelodau Cynulliad canlynol yn aelodau'r Pwyllgor ar Ysmegu mewn Mannau Cyhoeddus:

- Jeff Cuthbert AC (Llafur);
- David Lloyd AC (Plaid Cymru);
- Jonathan Morgan AC (Ceidwadwyr);
- Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol);
- Val Lloyd AC (Llafur) (Cadeirydd).

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 8 Mehefin 2004)**

### 15 Mehefin

Y Cynulliad yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a gyflwynwyd yn adroddiad y Pwyllgor Busnes. Bydd Rheol Sefydlog newydd Rhif 9.15 yn galluogi aelodau Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin i gymryd rhan yng nghyfarfodydd pwyllgorau pwnc y Cynulliad.

**(Cofnod y Trafodion ar gyfer 15 Mehefin 2004)**

### 21 Mehefin

Am y tro cyntaf, cynhelir cyfarfod ar y cyd ffurfiol rhwng un o bwyllgorau pwnc y Cynulliad a'r Pwyllgor Materion Cymreig. Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a'r Pwyllgor Materion Cymreig yn trafod y *Mesur Trafnidiaeth (Cymru)* drafft yn y Cynulliad.

**(Linc i'r agenda)**

**(Linc i'r trawsgrifiad)**

## Gorffennaf

### 15 Gorffennaf

Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar Ysmegu mewn Mannau Cyhoeddus.

**(Linc i'r Agenda)**

## Medi

### 28 Medi

Y Cynulliad yn cymeradwyo'r cynnig bod Pwyllgor y Tŷ'n cymryd cyfrifoldeb dros adeilad newydd y Cynulliad wedi iddo gael ei gwblhau.

**(Linc i Gofnod y Trafodion)**

## Hydref

### 6 Hydref

Yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Comisiwn Richard, derbynnir y cynnig bod y Cynulliad, 'ar ôl ystyried adroddiad comisiwn Richard, yn galw ar Brif Weinidog Cymru i annog Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gyflwyno cynigion i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 1998 at y dibenion canlynol:

a) sicrhau gwahaniad ffurfiol rhwng cangen weithredol a changen ddeddfwriaethol y Cynulliad;

b) diwygio'r trefniadau etholiadol presennol er mwyn cael gwared ar unrhyw anghysondebau;

c) gwella pwerau deddfwriaethol y Cynulliad.'

**(Linc i Gofnod y Trafodion)**

## Tachwedd

### 23 Tachwedd

Dau Fesur sy'n berthnasol i Gymru yn unig yn cael eu cyhoeddi yn Araith y Frenhines yn ystod agoriad swyddogol y Senedd yn San Steffan: Mesur Trafnidiaeth (Cymru) a Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).

**(Linc i Hansard)**

## Rhagfyr

### 1 Rhagfyr

Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n gwneud datganiad ar Araith y Frenhines, a ddilynir gan y ddadl flynyddol yn y Cyfarfod Llawn.

**(Linc i Gofnod y Trafodion)**



---

**Digwyddiadau allweddol  
yn y broses o ddatblygu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**2005**



## Ionawr

### 10 Ionawr

Penodi Dr Brian Gibbons AC yn Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Penodi Jane Hutt AC yn Drefnydd. Bydd Karen Sinclair AM yn parhau fel Prif Chwip ac yn mynychu cyfarfodydd y Cabinet.

#### [Datganiad i'r Wasg](#)

### 14 Ionawr

Prif Weinidog Cymru'n cyhoeddi penodiad dwy Ddirprwy Weinidog newydd. Penodir Tamsin Dunwoody-Kneafsey AC (Llafur) yn Ddirprwy Weinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, a Christine Chapman AC (Llafur) yn Ddirprwy Weinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, a Chyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Penodir Jeff Cuthbert AC (Llafur) yn Gadeirydd y Pwyllgor Monitro Amcan Un.

#### [Datganiad i'r Wasg](#)

## Chwefror

### 22 Chwefror

Y Cynulliad yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a gyflwynwyd yn adroddiad y Pwyllgor Busnes ar Chwefror 14.

- Diwygir Rheol Sefydlog Rhif 18A i sefydlu pwyllgor i graffu ar waith y Prif Weinidog.
- Diwygir Rheol Sefydlog Rhif 10 er mwyn newid ffiniau rhanbarthau'r pwyllgorau rhanbarthol fel eu bod yn cyd-fynd â ffiniau rhanbarthau etholiadol y Cynulliad. Drwy hynny creir pum pwyllgor rhanbarthol, ar gyfer: Gogledd Cymru, Canolbarth a Dwyrain Cymru, De Orllewin Cymru, Canol De Cymru a De Ddwyrain Cymru. Diwygir Rheol Sefydlog Rhif 6.6, sy'n ymdrin ag ailgyfeirio Mesurau i bwyllgorau; Rheol Sefydlog Rhif 6.12, sy'n ymdrin â threfn busnes; Rheol Sefydlog Rhif 6.14, sy'n ymdrin â'r canllawiau ar gynigion a gwelliannau; a Rheol Sefydlog Rhif 31, sy'n ymdrin ag is-ddeddfwriaeth.

[\(Linc i Gofnod y Trafodion\)](#)

## Mawrth

### 9 Mawrth

Y Cynulliad yn cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 3.2 o ran y swyddi y gall Aelod Cynulliad gael cyflog ychwanegol amdanynt.

[\(Linc i Gofnod y Trafodion\)](#)

## Ebrill

### 18 Ebrill

Peter Law AC yn hysbysu'r Llywydd nad yw bellach yn aelod o'r Blaid Lafur. O ganlyniad, bydd yn Aelod annibynnol o'r Cynulliad.

### 27 Ebrill

Y Cynulliad yn ethol aelodau'r pwyllgorau rhanbarthol.

[\(Linc i Gofnod y Trafodion\)](#)

## Mai

### 5 Mai

Y Blaid Lafur yn ennill yr Etholiad Cyffredinol gyda mwyafrif o 67 o seddi. Etholir dau Aelod Cynulliad yn Aelodau Seneddol yn San Steffan: etholir Peter Law AC yn Aelod Seneddol annibynnol dros Flaenau Gwent, a David Davies AC yn Aelod Seneddol Ceidwadol dros Fynwy.

### 17 Mai

Cyhoeddir deddfwriaeth yn Araith y Frenhines i ddiwygio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ceir y manylion llawn am *Fesur (Diwygiad) Llywodraeth Cymru* mewn Papur Gwyn sydd ar fin cael ei gyhoeddi.

Cyhoeddir tair deddf arall sy'n berthnasol i Gymru yn unig:

- Mesur Trafnidiaeth (Cymru);
- Mesur Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru);
- Y Mesur Llety Twristiaeth (Cofrestru) (Cymru) drafft.

[\(Linc i Gofnod y Trafodion\)](#)

Etholir Laura Anne Jones AC yn aelod o'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Brynle Williams AC yn aelod o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, a William Graham AC yn aelod o'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

[\(Linc i Gofnod y Trafodion\)](#)

### 7 Mehefin

Etholir Mick Bates AC yn aelod o'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Kirsty Williams AC yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, Jenny Randerson AC yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Jeff Cuthbert AC yn aelod o'r Pwyllgor Deddfau.  
([Linc i Gofnod y Trafodion](#))

### 14 Mehefin

Y Cynulliad yn pleidleisio i sefydlu pwyllgor i'w gynghori ar ariannu ysgolion.  
([Linc i Gofnod y Trafodion](#))

### 15 Mehefin

Cyhoeddir *Trefn Lywodraethu Well i Gymru*, sef y Papur Gwyn ar ddiwygio'r Cynulliad, ar ôl datganiad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin.  
([Linc i Hansard](#)).

Prif Weinidog Cymru'n gwneud datganiad ar y Papur Gwyn yn y Cyfarfod Llawn.  
([Linc i Gofnod y Trafodion](#))

### 21 Mehefin

Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrh. Peter Hain AS, yn gwneud datganiad ar Araith y Frenhines, a ddilynr gan ddatl yn y Cyfarfod Llawn.  
([Linc i Gofnod y Trafodion](#))

### 28 Mehefin

Y Cynulliad yn pleidleisio i sefydlu Pwyllgor ar y Papur Gwyn – Trefn Lywodraethu Well i Gymru ([Linc i Gofnod y Trafodion](#)) ac yn ethol yr Aelodau Cynulliad canlynol yn aelodau'r Pwyllgor:

- Yr Arglwydd Elis-Thomas (y Llywydd);
- Jane Hutt AS (Llafur);
- Lorraine Barrett AS (Llafur);
- Carl Sargeant AS (Llafur);
- Jocelyn Davies AS (Plaid Cymru);
- David Melding AS (Ceidwadwyr);
- Kirsty Williams AS (Democratiaid Rhyddfrydol).

Yn dilyn y Cyfarfod Llawn, cynhelir cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar y Papur Gwyn – Trefn Lywodraethu Well i Gymru, er mwyn clywed tystiolaeth.  
([Linc i Drafodion y Pwyllgor](#))

## Gorffennaf

### 4 Gorffennaf

Y Pwyllgor ar y Papur Gwyn – Trefn Lywodraethu Well i Gymru yn cyfarfod i glywed tystiolaeth.

[\(Linc i Drafodion y Pwyllgor\)](#)

### 5 Gorffennaf

Y Pwyllgor ar y Papur Gwyn – Trefn Lywodraethu Well i Gymru yn cyfarfod i glywed tystiolaeth.

[\(Linc i Drafodion y Pwyllgor\)](#)

### 6 Gorffennaf

Y Pwyllgor ar y Papur Gwyn – Trefn Lywodraethu Well i Gymru yn cyfarfod i glywed tystiolaeth.

[\(Linc i Drafodion y Pwyllgor\)](#)

Y Cynulliad yn ethol yr Aelodau Cynulliad canlynol yn aelodau'r Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion:

- Denise Idris Jones (Llafur);
- Lynne Neagle (Llafur);
- Janet Ryder (Plaid Cymru);
- William Graham (Ceidwadwyr);
- Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol).

[\(Linc i Gofnod y Trafodion\)](#)

### 7 Gorffennaf

Y Pwyllgor ar y Papur Gwyn – Trefn Lywodraethu Well i Gymru yn cyfarfod i glywed tystiolaeth.

[\(Linc i Drafodion y Pwyllgor\)](#)

## Hydref

### 25 Hydref

Y Pwyllgor Materion Cymreig yn cyfarfod fel rhan o'i ymchwiliad ar y Papur Gwyn *Trefn Lywodraethu Well i Gymru*.

[\(Linc i Hansard\)](#)

### 31 Hydref

Y Pwyllgor Materion Cymreig yn cyfarfod fel rhan o'i ymchwiliad ar y Papur Gwyn *Trefn Lywodraethu Well i Gymru*.

[\(Linc i Hansard\)](#)

## Tachwedd

### 10 Tachwedd

Y Pwyllgor Materion Cymreig yn cynnal ei gyfarfod olaf o'i ymchwiliad ar y Papur Gwyn *Trefn Lywodraethu Well i Gymru*.

[\(Linc i Hansard\)](#)

## Rhagfyr

### 8 Rhagfyr

Cyhoeddir **Mesur Llywodraeth Cymru**. Darlleniad cyntaf y Mesur yn Nhŷ'r Cyffredin. (**Linc i Hansard**)

### 13 Rhagfyr

Cyhoeddir adroddiad cyntaf y Pwyllgor Materion Cymreig ar y Papur Gwyn *Trefn Lywodraethu Well i Gymru* (First Report, 2005-06, HC 551).

(**Linc i'r adroddiad**)



---

**Digwyddiadau allweddol  
yn y broses o ddatblygu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**2006**



15:27

## Ionawr

### 9 Ionawr

*Mesur Llywodraeth Cymru* - ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin.  
([Linc i Hansard](#))

### 17 Ionawr

Dadl ar *Fesur Llywodraeth Cymru* yn y Cyfarfod Llawn.  
([Linc i Gofnod y Trafodion](#))

### 18 Ionawr

Y Cynulliad yn pleidleisio i sefydlu Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru, ac yn ethol yr Aelodau canlynol yn aelodau ohono:

- Yr Arglwydd Elis-Thomas (y Llywydd) (Cadeirydd);
- Jane Hutt (Llafur);
- Leighton Andrews (Llafur);
- Ann Jones (Llafur);
- Val Lloyd (Llafur);
- Gwenda Thomas (Llafur);
- Ieuan Wyn Jones (Plaid Cymru);
- Jocelyn Davies (Plaid Cymru);
- Nick Bourne (Ceidwadwyr);
- David Melding (Ceidwadwyr);
- Michael German (Democratiaid Rhyddfrydol).

([Linc i Gofnod y Trafodion](#))

### 23 Ionawr

*Mesur Llywodraeth Cymru* – diwrnod cyntaf y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.  
([Linc i Hansard](#))

## Ionawr

### 24 Ionawr

*Mesur Llywodraeth Cymru* – ail ddiwrnod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.  
([Linc i Hansard](#))

Etholir yr Aelodau Cynulliad canlynol yn aelodau'r Pwyllgor ar Seilwaith y Rheilffyrdd a Gwella Gwasanaethau i Deithwyr:

- Leighton Andrews (Llafur);
- Rosemary Butler (Llafur);
- Carl Sargeant (Llafur);
- Janet Davies (Plaid Cymru);
- Lisa Francis (Ceidwadwyr);
- Eleanor Burnham (Democratiaid Rhyddfrydol);
- John Marek (Forward Wales).

([Linc i Gofnod y Trafodion](#))

### 30 Ionawr

*Mesur Llywodraeth Cymru* – trydydd diwrnod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.  
([Linc i Hansard](#))

## Chwefror

### 7 Chwefror

Cynhelir y Cyfarfod Llawn cyntaf yn y Senedd, adeilad newydd y Cynulliad.

### 27 Chwefror

*Mesur Llywodraeth Cymru* – gweddill y cyfnodau craffu yn Nhŷ'r Cyffredin.  
([Linc i Hansard](#))

### 28 Chwefror

*Mesur Llywodraeth Cymru* - gweddill y cyfnodau craffu yn Nhŷ'r Cyffredin.  
([Linc i Hansard](#))

## Mawrth

### 1 Mawrth

Agoriad Brenhinol adeilad newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd, a fynychir gan Ei Mawrhydi'r Frenhines, Ei Fawrhydi Brenhinol Dug Caeredin, Ei Fawrhydi Brenhinol Tywysog Cymru, a'i Mawrhydi Brenhinol Duges Cernyw.

([Linc i Gofnod y Trafodion](#))

*Mesur Llywodraeth Cymru* – y darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi.  
([Linc i Hansard](#))

## Mawrth

### 14 Mawrth

Gosodir **Adroddiad Pwyllgor y Cynulliad ar Fesur Llywodraeth Cymru** gerbron y Cynulliad.

### 22 Mawrth

*Mesur Llywodraeth Cymru – yr ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi.*

**(Linc i Hansard)**

Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru  
**(Linc i Gofnod y Trafodion)**

## Ebrill

### 1 Ebrill

Newidir enw dau o bwyllgorau'r Cynulliad i adlewyrchu'r ffaith bod Bwrdd Croeso Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, ACCAC ac ELWa wedi dod yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Enw newydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yw'r Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau, ac enw newydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yw'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Nid oes newidiadau i gyfrifoldebau'r pwyllgorau.

### 19 Ebrill

*Mesur Llywodraeth Cymru – Diwrnod cyntaf y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.*

**(Linc i Hansard)**

### 25 Ebrill

Croesewir y 100,000fed ymwelydd i'r Senedd ers iddi agor i'r cyhoedd ym mis Chwefror.

## Mai

### 2 Mai

Telir teyrnged yn y Cyfarfod Llawn i'r diweddar Peter Law AC AS, yr Aelod Cynulliad a'r Aelod Seneddol dros Flaenau Gwent.

**(Linc i Gofnod y Trafodion)**

### 3 Mai

*Mesur Llywodraeth Cymru – ail ddiwrnod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.*

**(Linc i Hansard)**

## Mai

### 17 Mai

Y Cynulliad yn pleidleisio i sefydlu pwyllgor, a elwir yn Gomisiwn Cysgodol, i gynllunio ar gyfer y materion y bydd Comisiwn y Cynulliad yn gyfrifol amdanynt, fel y'u pennir yng Nghymal 27 Mesur Llywodraeth Cymru. Etholir yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas (y Llywydd), Lorraine Barrett (Llafur), Elin Jones (Plaid Cymru), William Graham (Ceidwadwyr), Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol) yn aelodau'r Comisiwn Cysgodol, ac etholir y Llywydd yn Gadeirydd.

**([Linc i Gofnod y Trafodion](#))**

Y Cynulliad yn pleidleisio i greu pwyllgor ymgynghorol a fydd yn argymhell pa Reolau Sefydlog y dylai'r Cynulliad eu mabwysiadu pan fydd wedi'i gyfansoddi yn ôl Mesur Llywodraeth Cymru. Etholir Jane Hutt (Llafur), Ann Jones (Llafur), Val Lloyd (Llafur), Gwenda Thomas (Llafur), Jocelyn Davies (Plaid Cymru), Lisa Francis (Ceidwadwyr), a Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol) yn aelodau'r Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog. Etholir Jenny Randerson yn Gadeirydd y pwyllgor.

**([Linc i Gofnod y Trafodion](#))**

## Mehafin

### 6 Mehefin

*Mesur Llywodraeth Cymru* – trydydd diwrnod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**([Linc i Hansard](#))**.

### 12 Mehefin

Pwyllgor Sefydlog CALRE, Cynhadledd Llywyddion Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop, yn cyfarfod yn y Senedd i drafod materion o ddiddordeb cyffredin o ran cynulliadau rhanbarthol, eu cysylltiad â'i gilydd, a'u perthynas â sefydliadau Ewrop.

### 27 Mehefin

*Mesur Llywodraeth Cymru* – Diwrnod cyntaf y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**([Linc i Hansard](#))**.

### 28 Mehefin

*Mesur Llywodraeth Cymru* – Ail ddiwrnod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**([Linc i Hansard](#))**.

### 29 Mehefin

Etholir Trish Law (Annibynnol) yn Aelod Cynulliad ar gyfer etholaeth Blaenau Gwent.

## Gorffennaf

### 4 Gorffennaf

Trish Law AC yn mynychu ei Chyfarfod Llawn cyntaf yn dilyn is-etholiad Blaenau Gwent.

### 13 Gorffennaf

*Mesur Llywodraeth Cymru* – y trydydd darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi.  
([Linc i Hansard](#)).

### 18 Gorffennaf

*Mesur Llywodraeth Cymru* – Ystyried gwelliannau Tŷ'r Arglwyddi yn Nhŷ'r Cyffredin.  
([Linc i Hansard](#)).

### 24 Gorffennaf

*Mesur Llywodraeth Cymru* – Ystyried gwelliannau Tŷ'r Cyffredin a'r rhesymau amdanynt yn Nhŷ'r Arglwyddi.  
([Linc i Hansard](#)).

### 25 Gorffennaf

*Mesur Llywodraeth Cymru* yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.  
([Linc i Hansard](#)). Cyhoeddir *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.

## Tachwedd

### 15 Tachwedd

Penodir Claire Clancy yn Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad.  
([Linc i Gofnod y Trafodion](#)).

### 28 Tachwedd

Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrh. Peter Hain AS, yn gwneud datganiad ar Araith y Frenhines, a ddilynrir gan ddadl yn y Cyfarfod Llawn.  
([Linc i Gofnod y Trafodion](#)).



---

**Digwyddiadau allweddol  
yn y broses o ddatblygu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**2007**



AGORWYD GAN EI MAWRHYD ... ENHINES  
OPENED BY HER MAJESTY THE ... 13-2006

## Ionawr

### 31 Ionawr

Cyhoeddir Rheolau Sefydlog newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Chwefror

### 7 Chwefror

Cymeradwyr y Rheolau Sefydlog newydd yn y Cyfarfod Llawn.

[\(Linc i Gofnod y Trafodion\)](#)

### 12 Chwefror

Prif Weithredwr a Chlerc newydd y Cynulliad, Claire Clancy, yn dechrau ar ei swydd.

## Mai

### 03 Mai

Etholiadau'r Cynulliad.

[\(Canlyniadau'r etholiad\)](#)